



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020: Crynodebau Gweithredol



Gadewch i ni greu'r dyfodol gyda'n gilydd

Cymru sy'n Fwy Cyfartal



"Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd)."

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)

Mae cydraddoldeb yn fater i bawb. Er gwaethaf cynnydd mewn rhai meysydd, megis cynnydd mewn cyflogaeth, culhau bylchau cyrhaeddiad addysgol i rai, a chynnydd yn lefelau cyfranogiad gwleidyddol, rydym yn dal i weld lefelau anghydraddoldeb sy'n gwbl annerbyniol yn yr 21ain ganrif.

Mae yna llawer i'w wneud o hyd yng Nghymru i sicrhau bod pawb yn rhydd o wahaniaethu ac yn gallu mwynhau eu hawliau dynol sylfaenol.

Mae'r bennod hon o'r Adroddiad yn canolbwyntio ar sut mae heriau allweddol yn effeithio ar rai grwpiau (y rhai a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010) ond mae hefyd yn cydnabod croestoriadoldeb sef deall y ffordd y gall nodweddion fel rhywedd, hil neu anabledd ryngweithio a chynyddu anfantais mewn sefyllfaoedd penodol.



Argymhellion Polisi

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall ymateb i dueddiadau yn y dyfodol (megis cynyddu awtomeiddio, ein poblogaeth sy'n heneiddio a newid yn yr hinsawdd) mewn ffyrdd sy'n lleihau anghydraddoldebau yn hytrach na'u annog.

Dylai Llywodraeth Cymru...

Cymryd camau beiddgar i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a brofir gan gymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifedd ethnig yng Nghymru - gan gynnwys drwy Strategaeth Cydraddoldeb Hiliol.

Gweithredu argymhellion yr Adolygiad Cydraddoldeb ar sail Rhywedd gan ganolbwyntio'n benodol ar oblygiadau tueddiadau'r dyfodol yn ogystal â'r heriau presennol.

Sicrhau ei fod yn defnyddio pob lifer sydd ar gael i leihau anghydraddoldebau a thlodi yng Nghymru, gan fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ym mhob un o'r nodau llesiant.

Sicrhau bod y cwricwlwm ysgol newydd yng Nghymru yn arfogi plant yn ddigonol i ddod yn ddinasyddion gwybodus moesegol yng Nghymru amrywiol; yn enwedig yng nghyd-destun y twf ymddangosiadol mewn troseddau casineb a waethgywyd gan Brexit.

Sicrhau ei fod yn defnyddio ysgogiadau fel Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus; dyletswydd economaidd-gymdeithasol a Bil Partneriaethau Gymdeithasol (Cymru), mewn ffyrdd sy'n cyd-fynd â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - yn enwedig gosod, cyflawni ac adrodd ar amcanion llesiant.

Gosod targedau heriol ar gyfer recriwtio'r sector cyhoeddus, gan sicrhau bod pobl â nodweddion amrywiol yn cael eu cynrychioli'n amlwg yn y llywodraeth ar bob lefel. Dylai'r dull hwn gydnabod pwysigrwydd profiadau byw dan anfantais fel rhan o'r meini prawf recriwtio dilys. Dylid cyflwyno llwybr carlam bywyd go iawn fel rhan o broses recriwtio'r Llywodraeth. (Gweler argymhelliad ym Mhennod 2 ar y 'Llwybr Carlam Bywyd Go Iawn').



Cyngor ar bennu amcanion llesiant ar gyfer yr holl gyrff a byrddau cyhoeddus a gwmpesir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol (gan gynnwys Llywodraeth Cymru)

Cyfeiriwch at y bennod ar Osod Amcanion Da, ond wrth osod eu hamcanion yn benodol mewn perthynas â'r nod hwn, dylai'r holl Gyrff Cyhoeddus a Byrddau a gwmpesir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

- Sicrhau bod amcanion yn ystyried cyfleoedd i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldebau yng nghyd-destun yr holl nodau llesiant - heb ganolbwyntio'n unig ar gyfleoedd economaidd a chymdeithasol.
- Ystyried dulliau mwy cydweithredol ac integredig o fynd i'r afael â thlodi a chydraddoldeb ar draws gwasanaethau, gan ganolbwyntio ar grwpiau sy'n wynebu anfanteision penodol.

Wrth bennu eu **camau**, dylai gyrff cyhoeddus a byrddau a gwmpesir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (gan gynnwys Llywodraeth Cymru) ganolbwyntio yn y meysydd a ganlyn a dylent:

- Trechu tlodi ac anfanteision economaidd-gymdeithasol.
- Sicrhau mynediad cyfartal i swyddi addas i gydnabod gwerth pawb.
- Rhoi cyfle cyfartal i bobl gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau er mwyn sicrhau canlyniadau cyfartal.
- Galluogi pobl i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth i'w cyflawni.
- Deall achosion ac effeithiau anghydraddoldebau iechyd.

“Nid wyf yn siarad dros fy hun ond dros y rhai heb lais y rhai sydd wedi ymladd dros eu hawliau eu hawl i fyw mewn heddwch, eu hawl i gael eu trin ag urddas, eu hawl i gyfle cyfartal, eu hawl i fod addysgedig.”

Malala Yousafzai



Ble rydym ni nawr? Fy asesiad o gynnydd tuag at Gymru sy'n Fwy Cyfartal:

Mae angen mwy o waith i gyrrff cyhoeddus gymhwyso lens cydraddoldeb i'w hamcanion llesiant a'u halinio â'u hamcanion cydraddoldeb.

Mae anghydraddoldeb o ran statws economaidd-gymdeithasol yn ogystal â hil, rhywedd, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred (a ddisgrifir yn aml fel y rhai â nodweddion gwarchodedig) yn croestorri ar draws pob un o'n nodau llesiant cenedlaethol. Yn ôl Sefydliad Joseph Rowntree, sbardun mwyaf tlodi yw cyrhaeddiad addysgol plant pan fyddant yn gadael addysg amser llawn, mae'n gadarnhaol felly bod llawer o amcanion llesiant yn ymwneud â chydraddoldeb o ran cyfleoedd addysgol o ran sgiliau a lleihau bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol. Er enghraifft, "Lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a galwedigaethol i ddarparu cyfle cyfartal."

Nid yw patrymau tlodi wedi newid yn sylweddol dros genedlaethau, ac felly mae tlodi yn parhau i fod yn her allweddol i genedlaethau'r dyfodol.

Yn ôl [cyhoeddiad diweddar gan Sefydliad Bevan](#), mae yna rai arwyddion nad yw'n ymddangos fel bod tlodi'n gwaethgu - mewn gwirionedd mae cyfraddau tlodi cyffredinol Cymru wedi gostwng o 24% i 23%, gyda gostyngiadau tebyg i'r gyfradd tlodi plant (29% i 28%) a chyfradd tlodi oedolion o oedran gweithio (23% i 22%). Fodd bynnag, mae hyn wedi'i osod yn erbyn cefndir o batrwm ystyfnig o dlodi nad yw wedi newid yn sylweddol dros genedlaethau ac mae gormod o blant wedi eu dal mewn cylchoedd rhwng genedlaethau o adfyd ac anfantais gydol oes.

Mae'n gadarnhaol bod y Llywodraeth yn deddfu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, ond nid yw llawer o'r ysgogiadau eraill i roi diwedd ar dlodi ar waith ac mae angen iddi fod yn gyson â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu mewn cyd-destun rhyngwladol heriol, gydag ansicrwydd ynghylch i ba raddau y bydd Brexit yn effeithio ar Gymru a'n cymunedau tlotaf, a'r canlyniad economaidd ansicr o bandemig COVID-19. Er bod y Llywodraeth yn amlwg wedi ymrwymo i fynd i'r afael â thlodi, mae angen cymryd camau i gymhwyso lens tlodi mewn perthynas â'r nodau llesiant i gyd, os ydym o ddifrif ynglŷn â dod â thlodi i ben a chreu Cymru well ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Dylai gyrrff cyhoeddus ystyried effaith cydraddoldeb tueddiadau yn y dyfodol ar gydraddoldeb, yn enwedig mewn perthynas â natur gyfnewidiol gwaith a'n poblogaeth sy'n heneiddio.

Mae ymchwil yn awgrymu bod awtomeiddio yn debygol o effeithio ar rai grwpiau a nodweddion yn fwy nag eraill gan arwain at anfantais bellach i leoedd, cymunedau a grwpiau sydd eisoes dan anfantais economaidd. Mae risg sylweddol y bydd y diffyg cyfleoedd uwchsgilio yn effeithio'n anghymesur ar y grwpiau sydd eisoes dan anfantais heddiw. Er enghraifft, mae Fforwm Economaidd y Byd yn amcangyfrif y byddai menywod wedi ymgymryd â 57% o'r swyddi a fydd wedi'u dadleoli gan dechnoleg erbyn 2026. Mae gan lawer o gyrrff cyhoeddus amcanion llesiant o fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd yn ein poblogaeth hŷn ond cymharol ychydig o gyrrff cyhoeddus sy'n mynd i'r afael â'r hyn y gallai ei olygu o ran swyddi a sgiliau yn eu hardal.



Hynny yw, sut y byddant yn cael buddion cadarnhaol o'r potensial i bobl hŷn weithio am gyfnod hirach, naill ai'n ffurfiol neu'n anffurfiol trwy wirfoddoli, a throsglwyddo sgiliau a phrofiad. Mae angen i ni alluogi pobl i aros mewn cyflogaeth am gyfnod hirach, i gefnogi heneiddio'n dda ac i gael effaith gadarnhaol ar yr economi.

Dylai cyrff cyhoeddus ystyried effaith cydraddoldeb tueddiadau yn y dyfodol ar gydraddoldeb, yn enwedig mewn perthynas â natur gyfnewidiol gwaith a'n poblogaeth sy'n heneiddio.

Mae effaith newid yn yr hinsawdd hefyd yn debygol o gael ei deimlo'n anghyfartal o ran ei effeithiau ac o ran camau i atal a lliniaru. Mae atebion polisi i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd hefyd mewn perygl o ehangu anghydraddoldeb os na chânt eu hystyried yn ofalus. Er enghraifft, gallai dull o leihau allyriadau carbon o drafnidiaeth sy'n canolbwyntio ar gymell prynu cerbydau trydan roi mwy o anfantais i'r rheini sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol na allant fforddio bod yn berchen ar gerbyd.

Mae cyflogaeth yng Nghymru wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond mae anghydraddoldebau annerbyniol o hyd i lawer o grwpiau o bobl.

Yng Nghymru heddiw, mae mwy o bobl mewn cyflogaeth gyda chynnydd yng nghyfran y menywod sy'n cael eu cyflogi mewn galwedigaethau â chyflog uchel, ac mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi culhau. Er gwaethaf hyn, mae cyflogaeth ansicr wedi cynyddu ar gyfer y rhai rhwng 16 a 24 oed, mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer gweithwyr amser llawn yn parhau, pobl nad ydynt yn anabl yng Nghymru ddwywaith yn fwy tebygol na phobl anabl o gael eu cyflogi, ac mae gweithwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru yn ennill 7.5% yn llai yr awr (ar gyfartaledd) na gweithwyr gwyn Prydain yng Nghymru.

Nid yw gwaith bellach yn llwybr gwarantedig allan o tlodi.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod tlodi mewn gwaith yn cynyddu a'i fod hefyd yn effeithio'n anghymesur ar rai grwpiau, gan waethygu'r anghydraddoldebau presennol. Yn ôl dadansoddiad Sefydliad Bevan, mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru yn byw mewn cartrefi lle mae o leiaf un oedolyn mewn gwaith: mae 64% o oedolion o oedran gweithio a 67% o blant sy'n byw mewn tlodi yn byw mewn cartrefi o'r fath. Mae gormod o swyddi yng Nghymru yn talu cyflogau isel ac nid ydynt yn rhoi fawr o sicrwydd, heb adael pobl â digon o arian i adeiladu bywyd gweddus iddynt hwy eu hunain a'u teuluoedd. Mae yna enghreifftiau o gyrff cyhoeddus yn gweithredu i greu amodau gwaith tecach gan gynnwys Llywodraeth Cymru yn rhedeg cynllun mentora gwrthdro lle mae mwy o aelodau iau o staff â nodweddion gwarchodedig yn cael eu paru ag uwch weision sifil i'w mentora ac mae gan Fwrdd Iechyd Bae Abertawe rwydweithiau LGBT + a phobl Duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig i wella dealltwriaeth, gwella cefnogaeth staff a rhoi hwb i ofal cleifion.

Mae arwyddion bod cyfranogiad gwleidyddol a dinesig yn cynyddu, ond mae gennym ffordd i fynd i sicrhau bod sefydliadau'n rhoi'r ffordd 'cynnwys' o weithio ar waith a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Trwy fy ngwaith yn monitro ac asesu cyrff cyhoeddus, rwyf wedi darganfod bod rhai cyrff yn trafod 'cynnwys' a 'chydraddoldeb' ond nid o reidrwydd y tu hwnt i ddatganiadau eang. Er enghraifft, y cam: "Byddwn yn galluogi nifer fwy, ac amrywiaeth ehangach, o bobl i fwynhau, cymryd rhan a gweithio yn y celfyddydau a ariennir yn gyhoeddus." nad yw'n adlewyrchu'r camau y mae'n rhaid iddynt eu cymryd i ehangu cydraddoldeb ac amrywiaeth cyfranogiad, y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a modelau rôl cymunedol.



Er ei bod yn gadarnhaol bod rhai enghreifftiau da o gynnwys megis 'Mesur y Mynydd'(fenter a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu Rheithgor Dinasyddion i archwilio 'Beth sy'n wirioneddol bwysig ym maes gofal cymdeithasol i unigolion yng Nghymru?') a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn cymryd dull 'dywedasocho, gwnaethom' trwy gyfleu canlyniadau cyfranogiad i'r bobl y maent wedi ymwneud â gwneud penderfyniadau, mae'n amlwg bod angen i gyrff cyhoeddus wneud mwy, yn enwedig o ran dulliau wedi'u targedu o weithio gyda grwpiau penodol sy'n wynebu anfantais.

Mae Cymru yn dangos ymrwymiad i wrando ar bobl ifanc drwy ostwng yr oedran pleidleisio i gynnwys rhai 16 a 17 oed.

Mae ymgyfraniad pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau yn arbennig o bwysig i gynrychioli buddiannau cenedlaethau'r dyfodol ac mae lleihau'r oedran pleidleisio yng Nghymru mewn Deddf newydd yn achos dathlu. Dylai gyrff cyhoeddus wneud y mwyaf o gyfleoedd i ymgysylltu â phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau a dangos sut mae lleisiau pobl ifanc yn dylanwadu ar benderfyniadau i wella Cymru.

Er gwaethaf rhywfaint o gynnydd, mae angen gwaith pellach i sicrhau bod ein gwneuthurwyr penderfyniadau yn rhannu nodweddion y bobl y maent yn gwneud penderfyniadau drostynt.

Er enghraifft, mae grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn cael eu tangynrychioli mewn penodiadau cyhoeddus ac mae'r farnwriaeth a phrin yw'r bobl anabl sydd mewn swyddi o rym yng Nghymru. Mae angen ymdrech genedlaethol ar y cyd arnom i sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn fwy amrywiol, gan ystyried yr holl nodweddion gwarchodedig, a'r mecanweithiau sydd ar waith i sicrhau bod unrhyw ddinesydd a hoffai gymryd rhan mewn gwella gwasanaeth neu gynllun yn cael cyfle i wneud hynny.

Mae Trais yn Erbyn Menywod yn parhau i fod yn her sylweddol a pharhaus er gwaethaf ffocws cynyddol a chyflwyno deddfwriaeth benodol.

Mae cam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod a merched yn parhau i fod yn her sylweddol yng Nghymru, nid yn unig oherwydd yr effaith y mae'n ei chael ar iechyd corfforol a meddyliol dioddefwyr ac ar y galw am wasanaethau cyhoeddus yn y tymor byr, ond hefyd oherwydd yr effaith tymor hwy ar drosglwyddo adfyddau plentyndod rhwng cenedlaethau. Er bod ymrwymiad a bwriad polisi clir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys addewid gan y Prif Weinidog i wneud Cymru'r lle mwyaf diogel i fenywod, mae dadansoddiad gan Archwiliad Cymru ar weithredu'r Ddeddf yn dangos bod mwy o waith i'w wneud.

Yn ôl yr Adroddiad Bwlch Rhywedd Byd-eang, [Gwlad yr Iâ](#) yw'r wlad fwyaf cyfartal o ran rhywedd yn y byd am yr 11eg tro yn olynol, ar ôl cau bron i 88% o'i bwlch rhywedd cyffredinol.

Mae Karlie Kloss yn fodel rôl benywaidd sy'n annog menywod ifanc i ddilyn gyrfaedd mewn meysydd technoleg trwy ei rhaglen Kode with Klossy, a sefydlodd yr Athro Sue Black OBE [#techmums](#) sy'n arfogi menywod â'r sgiliau digidol sydd eu hangen arnynt i lywio gweithle'r dyfodol.

Mae Wilderness on Wheels yn sefydliad yn [Colorado](#) sy'n helpu plant ac oedolion ag anableddau i gael profiadau fel y mae pawb arall yn ei wneud, gan gynnwys gweithgareddau awyr agored. Mae'n helpu pobl o bob gallu i gael mynediad at fyd natur a gweithgareddau awyr agored, gan gynnwys gwersylla, heicio a physgota.



Yn 2015, ffurfiodd y Prif Weinidog Justin Trudeau y cabinet cytbwys rhywedd cyntaf yn hanes [Canada](#) a rhoi'r wlad yn y pumed safle yn y gwaith o ran canran y menywod mewn swyddi gweinidogol. Pan ofynnodd gohebwy'r i Trudeau pam roedd cydraddoldeb rhywiol yn bwysig iddo, fe ddychwelodd: "Oherwydd mae'n 2015."

Mae [Black Thrive](#) yn sefydliad sy'n ceisio dod â'r stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl i ben a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd meddwl a brofir gan gymunedau Du [Lambeth](#).

Isod mae'r pum maes rwy'n argymhell y dylai pob corff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, ganolbwyntio ar y canlynol:

- Trechu tlodi ac anfanteision economaidd-gymdeithasol.
- Sicrhau mynediad cyfartal i swyddi addas i gydnabod gwerth pawb.
- Rhoi cyfle cyfartal i bobl gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau er mwyn sicrhau canlyniadau cyfartal.
- Galluogi pobl i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth i'w cyflawni.
- Deall achosion ac effeithiau anghydraddoldebau iechyd.

Am y dystiolaeth lawn, yr asesiad, y canfyddiadau allweddol a'r cyngor, gwelwch yr adran ar Gymru sy'n Fwy Cyfartal ym Mhennod 3: Cynnydd ar y nodau o Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol.

